# CYNGOR SIR

Cofnodion cyfarfod o'r Cyngor Sir a gynhaliwyd yn SIAMBR Y CYNGOR, NEUADD Y SIR, RHUTHUN LL15 1YN, Dydd Mawrth, 5 Gorffennaf 2016 am 10.00 am.

## YN BRESENNOL

Y Cynghorwyr Brian Blakeley, Joan Butterfield, Jeanette Chamberlain-Jones, Bill Cowie, Peter Arnold Evans, Hugh Evans, Huw Hilditch-Roberts, Martyn Holland, Hugh Irving, Alice Jones, Pat Jones, Jason McLellan, Win Mullen-James (Is-Gadeirydd), Merfyn Parry, Paul Penlington, Pete Prendergast, Arwel Roberts, Anton Sampson, Gareth Sandilands, David Simmons, Barbara Smith, David Smith, Julian Thompson-Hill, Cefyn Williams, Cheryl Williams, Huw Williams a/ac Mark Young

## HEFYD YN BRESENNOL

Prif Weithredwr (MM), Swyddog Monitro/ Pennaeth Gwasanaethau'r Gyfraith, Adnoddau Dynol a Democrataidd (GW), Rheolwr Gwasanaethau Democrataidd (SP), a Gweinyddwr Pwyllgorau (SLW).

Cyn dechrau'r cyfarfod dywedwyd nad yw'r Cadeirydd, y Cynghorydd Ann Davies, yn gallu mynychu'r cyfarfod ac, yn ei absenoldeb, y byddai'r Is-gadeirydd, y Cynghorydd Win Mullen James (a elwir yn 'Cadeirydd' o hyn allan), yn cadeirio cyfarfod y Cyngor Llawn.

## 1 YMDDIHEURIADAU

Derbyniwyd ymddiheuriadau am absenoldeb oddi wrth y Cynghorwr(wyr) Ian Armstrong, Raymond Bartley, Ann Davies, Meirick Davies, Stuart Davies, Bobby Feeley, Carys Guy, Colin Hughes, Rhys Hughes, Huw Jones, Gwyneth Kensler, Geraint Lloyd-Williams, Barry Mellor, Bob Murray, Dewi Owens, Bill Tasker, Joe Welch a/ac David Williams

## 2 DATGAN CYSYLLTIAD

Ni ddatganwyd unrhyw gysylltiad.

## 3 MATERION BRYS FEL Y'U CYTUNWYD GAN Y CADEIRYDD

- Dywedodd y Cadeirydd, y Cynghorydd Win Mullen James, fod y Cynghorydd Hugh Jones yn wael iawn yn yr ysbyty ac, ar ran y Cyngor, dymunodd wellhad buan iddo ac anfon cofion ato ef a'i deulu.

- Yn rhinwedd ei swydd fel Cefnogwr y Lluoedd Arfog, rhoddodd y Cynghorydd Hugh Irving gyflwyniad byr ar y Diwrnod Lluoedd Arfog a gynhaliwyd gan Sir Ddinbych yn ddiweddar yng Nghastell Bodelwyddan.

Y llynedd fe sefydlwyd Grŵp Llywio gyda chymorth Peter McDermott, Arweinydd Tîm, Twristiaeth, Marchnata a Digwyddiadau i drefnu'r digwyddiad.

Daeth oddeutu 10,000 o bobl i Gastell Bodelwyddan. Roedd y gwesteion yn cynnwys urddasolion o bob rhan o ogledd Cymru ynghyd â chynrychiolwyr o'r tri llu arfog, y tri gwasanaeth brys a chyn-filwyr y lluoedd arfog.

Llongyfarchodd y Cadeirydd y Cynghorydd Irving, Peter McDermott a'r holl swyddogion a gynorthwyodd i wneud y diwrnod yn llwyddiant ysgubol.

- Roedd yr Arweinydd, y Cynghorydd Hugh Evans, yn pryderu ynghylch y nifer o bobl sydd wedi cysylltu ag Aelodau yn gofyn i'r Cyngor ystyried cynnig ar droseddau casineb.

  Dywedodd yr Arweinydd:

  "Rydym ni'n falch o gael byw mewn cymdeithas amrywiol a goddefgar. Nid oes lle i hiliaeth, senoffobia a throseddau casineb yn ein gwlad. Rydym ni, Cyngor Sir Ddinbych, yn condemnio hiliaeth, senoffobia a throseddau casineb yn ddigamsyniol. Ni fyddwn yn caniatáu i gasineb fod yn dderbyniol. Bydd y Cyngor yn gweithio i sicrhau bod cyrff a rhaglenni lleol yn derbyn y gefnogaeth a'r adnoddau sydd eu hangen i atal ac ymladd yn erbyn hiliaeth a senoffobia. Mae arnom ni eisiau sicrhau holl drigolion Sir Ddinbych eu bod nhw'n aelodau gwerthfawr o'n cymuned".

  Ar ôl ymgynghori gydag arweinyddion yr holl grwpiau gwleidyddol, rydym ni'n teimlo ei bod yn bwysig i ni ddod â'r eitem hon gerbron yr Aelodau heddiw.

  Mynegodd yr holl Arweinwyr Grŵp eu bod yn condemnio ymddygiad alaethus ac na fyddent yn ei oddef.

  Cynigiwyd y cynnig gan y Cynghorydd Hugh Evans, gyda'r Cynghorydd David Smith yn eilio.

  Cafwyd pleidlais drwy godi llaw ac roedd pawb o blaid y cynnig.

## 4 DYDDIADUR Y CADEIRYDD

Roedd rhestr o ddigwyddiadau dinesig a fynychwyd gan y Cadeirydd a'r Is-Gadeirydd rhwng 15.04.2016 a 19.06.2016 wedi ei dosbarthu cyn y cyfarfod.

Siaradodd y Cynghorydd Martyn Holland ar ran y Cynghorydd Ann Davies a diolch i'r Is-Gadeirydd, y Cynghorydd Win Mullen James, am ei chefnogaeth a dywedodd pa mor dda y maent wedi cydweithio.

***PENDERFYNWYD*** *derbyn y rhestr o ymrwymiadau dinesig a fynychwyd gan y Cadeirydd a'r Is-gadeirydd.*

## 5 COFNODION

Cyflwynwyd cofnodion cyfarfod y Cyngor a gynhaliwyd ar 10 Mai 2016.

Dywedodd y Cynghorydd Jason McLellan fod cynrychiolydd Swyddfa Archwilio Cymru, Gwilym Bury, yn y Cyfarfod Blynyddol diwethaf wedi awgrymu bod y Pwyllgor Llywodraethu Corfforaethol, ar un achlysur, wedi bod heb gworwm. Gwiriwyd hyn a gwelwyd na fu achos o’r fath.

Tudalen 17 - Dywedodd y Cynghorydd Jason McLellan nad yw’r cofnodion yn crybwyll y pryderon ynghylch Polisi Cyflogau’r Uwch Dîm Arweinyddiaeth yng ngoleuni'r toriadau yng nghyflogau’r sector cyhoeddus.

Ar y pwynt hwn, gadawodd aelodau o'r Uwch Dîm Arweinyddiaeth y siambr.

Dywedodd y Cynghorydd Julian Thompson-Hill, yn rhinwedd ei swydd fel Cadeirydd Panel Cydnabyddiaeth Ariannol Mewnol yr Uwch Dîm Arweinyddiaeth, bod yr argymhellion y cytunwyd arnynt yn y Cyfarfod Blynyddol wedi eu cyflwyno i'r Gweinidog. Mae’r Gweinidog wedi ymateb ac wedi gofyn i’r Panel Cydnabyddiaeth Ariannol Mewnol ail-ystyried cydnabyddiaeth ariannol yr Uwch Dîm Arweinyddiaeth cyn diwedd yr wythnos (wythnos yn gorffen ddydd Gwener 8 Gorffennaf). Mae’r panel i fod i gyfarfod ddydd Mercher, 6 Gorffennaf 2016, i ystyried barn y Gweinidog.

Gofynnodd y Cynghorydd Paul Penlington am gofnod o bleidleisiau’r Aelodau ar Bolisi Cyflogau'r Uwch Dîm Arweinyddiaeth a chadarnhad ynghylch a oedd y cyfarfod yn ffurfio cworwm ar adeg y bleidlais.

Cadarnhaodd Rheolwr y Gwasanaethau Democrataidd fod y cyfarfod yn ffurfio cworwm a phe bai’r bleidlais wedi ei chofnodi’n electronig yna byddai cofnod ar gael. Fodd bynnag, os oedd y bleidlais drwy godi llaw yna, yn anffodus, ni fyddai unrhyw gofnod ar gael gan na ofynnwyd am bleidlais wedi ei chofnodi.

***PENDERFYNWYD*** *yn amodol ar yr uchod, cadarnhau cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 10 Mai 2016 fel cofnod cywir a bod y Cadeirydd yn eu llofnodi.*

## 6 CYFANSODDIAD Y CYNGOR

Cyflwynodd y Swyddog Monitro/Pennaeth y Gwasanaethau Cyfreithiol, Adnoddau Dynol a Democrataidd, yr adroddiad (a gylchlythyrwyd yn flaenorol) er mwyn i’r Aelodau ystyried a mabwysiadu’r Cyfansoddiad Enghreifftiol newydd a gwneud sylwadau arno.

Mae gan y Cyngor Llawn gyfrifoldeb cyfreithiol i fabwysiadu'r Cyfansoddiad yn unol â Deddf Llywodraeth Leol 2000.

Yn ystod y deuddeg mis diwethaf mae Gweithgor y Cyfansoddiad, sy’n cynnwys cynrychiolaeth drawsbleidiol, wedi cyfarfod i ystyried y newidiadau arfaethedig; cyn

i’r Swyddog Monitro adrodd ar bob cam o gynnydd i’r Pwyllgor Llywodraethu Corfforaethol.

Cynhaliwyd gweithdy Aelodau ym mis Mawrth 2016 er mwyn trafod a chyflwyno aelodaeth ehangach i’r Cyfansoddiad newydd arfaethedig a galluogi’r Swyddog Monitro i lywio’r newidiadau arfaethedig.

Tynnwyd sylw'r Aelodau at y newidiadau canlynol:

- Adran Diffiniad Estynedig
- Adran 2 (2.6) – Caniatáu’r Swyddog Monitro i wneud mân newidiadau i'r Cyfansoddiad
- Adran 3 – Sut y gall aelodau o’r cyhoedd gael gwybodaeth a chymryd rhan
- Adran 4 (4.2) – Fframwaith Polisi wedi ei ddiweddaru
  (4.13.2) – Eglurhad o hyd cyfarfodydd.
  (4.16) – Eglurhad o gworwm.
  (4.17) – Ar hyn o bryd ni chaniateir mynychu unrhyw gyfarfod, pwyllgor nac is-bwyllgor o bell.
  (4.18) – Cwestiynau gan y cyhoedd – wedi ei gyfyngu i 30 munud.
- Adran 7 – Esboniad ychwanegol o’r broses.
- Adran 9 – Rhestru pob pwyllgor rheoleiddio a phwyllgor arall, gan gynnwys Cydbwyllgorau.
- Adran 11 – Pwy yw swyddogion statudol ‘priodol’ y Cyngor a’u swyddogaethau a’u meysydd cyfrifoldeb.
- Adran 12 – Cyllid, Contractau a Materion Cyfreithiol a chael gwared ar yr angen i Gadeirydd y Cyngor lofnodi pob contract yn unigol a thrafodion eiddo a wneir dan sêl.
- Adran 13 – Cynllun Dirprwyo Aelodau Cabinet diwygiedig a Chynllun Dirprwyo Swyddogion diwygiedig.
- Adran 17 – Rheolau’r Weithdrefn Gontractau - newidiadau wedi eu hychwanegu yn 2.7.
- Adran 18 – Cod Ymddygiad Aelodau, a gymeradwywyd yn ddiweddar, wedi ei ychwanegu.
  (18.3) – Protocol diwygiedig ar gyfer Perthynas rhwng Aelodau a Swyddogion.
  (18.4) – Polisi Rhannu Pryderon newydd wedi ei ychwanegu.
  (18.8) – Fersiwn ddiweddaraf cymeradwyo o’r Cod Arferion Gorau i Gynghorwyr a Swyddogion sy'n delio â Materion Cynllunio wedi ei ychwanegu.
- Adran 20 - Atodlen Cydnabyddiaeth Ariannol wedi ei diweddaru a'i hychwanegu.

Cafwyd trafodaeth bellach a chodwyd y pwyntiau canlynol:

- Gofynnodd y Cynghorydd Hugh Irving a oes modd cynnwys egwyddorion Nolan yn y Cyfansoddiad.
  Eglurodd y Swyddog Monitro/Pennaeth y Gwasanaethau Cyfreithiol, Adnoddau Dynol a Democrataidd fod Gorchymyn Ymddygiad Aelodau (Egwyddorion) (Cymru) 2001 yn cael ei ddefnyddio yng Nghymru a’i fod yn cynnwys tair egwyddor ychwanegol i egwyddorion Nolan. CYNIGIODD y

Cynghorydd Hugh Irving y dylid cynnwys Gorchymyn Ymddygiad Aelodau (Egwyddorion) (Cymru) 2001 yn y Cyfansoddiad, EILIWYD hyn gan y Cynghorydd Martyn Holland.

- Holodd yr Aelodau ynghylch yr elfen penderfyniadau dirprwyedig a geir yn y Cyfansoddiad gan nad oeddent yn siŵr a fyddent yn cael gwybod am unrhyw benderfyniad dirprwyedig arfaethedig.
  Eglurwyd y bydd penderfyniadau dirprwyedig Aelodau Arweiniol yn cael eu hanfon at yr holl Aelodau cyn i'r adroddiad gael ei wneud, gyda chais am sylwadau. Unwaith y bydd y penderfyniad wedi ei wneud, os yw'r Aelodau yn anghytuno â'r penderfyniad, yna fe ellir dilyn y broses "galw i mewn".
- Cadarnhaodd y Swyddog Monitro/Pennaeth y Gwasanaethau Cyfreithiol, Adnoddau Dynol a Democrataidd y byddai 'r canllawiau drafft yn cael eu cyflwyno i'r Pwyllgor Llywodraethu Corfforaethol unwaith y bydd canllawiau wedi eu gosod ynghylch penderfyniadau allweddol a phenderfyniadau eraill.
- Holodd y Cyng. Alice Jones a yw'r broses archwilio yn ddigon cadarn.
  Dywedodd y Cynghorydd Jones ei bod wedi cyflwyno cais archwilio fis Chwefror, ond nad oedd wedi derbyn unrhyw ymateb. Argymhellodd y dylid ail-edrych ar Adran 7 yn y Cyfansoddiad i sicrhau bod archwilio yn fwy effeithiol. Ymatebodd Cadeirydd Grŵp Cadeiryddion ac Is-Gadeiryddion Archwilio, y Cynghorydd Huw Hilditch-Roberts, i'r Cynghorydd Jones gan esbonio bod y cais cychwynnol yn ymwneud â mater unigol a bod gwybodaeth bellach wedi ei geisio i ganfod sut y mae'n effeithio ar Sir Ddinbych yn ei chyfanrwydd. Cadarnhaodd y Swyddog Monitro/Pennaeth y Gwasanaethau Cyfreithiol, Adnoddau Dynol a Democrataidd y byddai'n ystyried unrhyw fater sy'n cael ei gyflwyno iddo gan Aelodau. CYNIGIODD y Cynghorydd Alice Jones y dylid ail-edrych ar Adran 7 (Archwilio), a nodi a chytuno ar weddill y Cyfansoddiad. EILIWYD hyn gan y Cynghorydd Arwel Roberts.
- Diolchodd y Cynghorydd Barbara Smith i holl Aelodau'r Gweithgor, Pennaeth y Gwasanaethau Cyfreithiol, Adnoddau Dynol a Democrataidd a'r staff am eu gwaith rhagorol.
  Mae'r Cyfansoddiad newydd wedi ei llunio gyda chyfraniadau gan Gynghorwyr a Swyddogion. Mae'n ddogfen fyw y gellid ei newid a'i haddasu pan fo angen.
- Dywedodd yr Arweinydd, y Cynghorydd Hugh Evans, ei fod yn ddiolchgar iawn o'r gwaith a wnaed ar y Cyfansoddiad.
  Bydd y ddogfen hon ar waith i sicrhau na fydd oedi gyda gwneud penderfyniadau.
- Soniodd y Prif Weithredwr am bwysigrwydd cael Cyfansoddiad ac i barhau i adolygu'r ddogfen.
  Anogwyd yr Aelodau i gynnig awgrymiadau ar sut i wella'r ddogfen.

Eglurodd y Swyddog Monitro/Pennaeth y Gwasanaethau Cyfreithiol, Adnoddau Dynol a Democrataidd y byddai'r Aelodau yn pleidleisio ar y diwygiad cyntaf a gynigiwyd gan y Cynghorydd Hugh Irving ynglŷn â Gorchymyn Ymddygiad Aelodau (Egwyddorion) (Cymru) 2001 yn y lle cyntaf, ac yna ar y diwygiad a gynigiwyd gan y Cynghorydd Alice Jones ynglŷn ag archwilio. Yn dilyn y ddwy bleidlais yma, cynhelir y brif bleidlais ar y Cyfansoddiad.

Felly, cynhaliwyd pleidlais ar gynnwys Gorchymyn Ymddygiad Aelodau (Egwyddorion) (Cymru) 2001 yn y Cyfansoddiad:

PLEIDLAIS:
O blaid - 27
Ymatal - 0
Yn erbyn - 0

Cytunwyd i ddiwygio’r Cyfansoddiad i gynnwys Gorchymyn Ymddygiad Aelodau (Egwyddorion) (Cymru) 2001.

Cynhaliwyd pleidlais ar adolygu Adran 7 (Archwilio) a chyflwyno adroddiad pellach i’r Cyngor ym mis Hydref, a chymeradwyo gweddill y Cyfansoddiad:

PLEIDLAIS:
O blaid - 9
Ymatal - 1
Yn erbyn - 16

Gwrthodwyd y diwygiad.

Cynhaliwyd pleidlais ar yr argymhelliad sylweddol, gan gynnwys cynnwys Gorchymyn Ymddygiad Aelodau (Egwyddorion) (Cymru) 2001:

PLEIDLAIS:
O blaid - 23
Ymatal - 2
Yn erbyn - 1

***PENDERFYNWYD*** *bod y Cyngor yn nodi ac yn mabwysiadu'r Cyfansoddiad, ynghyd â chynnwys Gorchymyn Ymddygiad Aelodau (Egwyddorion) (Cymru) 2001.*

## 7 RHAGLEN GWAITH I’R DYFODOL Y CYNGOR SIR

Cyflwynodd y Swyddog Monitro/Pennaeth y Gwasanaethau Cyfreithiol, Adnoddau Dynol a Democrataidd Raglen Gwaith i'r Dyfodol y Cyngor (wedi ei gylchredeg).

6 Medi 2016 – Adroddiad Blynyddol Llywodraethu Corfforaethol.

Yn dilyn cyfarfod y Cyngor Llawn ar 6 Medi 2016, bydd sesiwn Briffio'r Cyngor yn cael ei chynnal i roi gwybod i Aelodau am yr Asesiad Corfforaethol sy’n cael ei gynnal fis Hydref 2016.

Dywedodd y Cynghorydd Julian Thompson Hill y bydd Gweithdy Cyllideb ar 18 Gorffennaf 2016 yn Rhuthun.

***PENDERFYNWYD*** *yn amodol ar yr uchod y dylid cymeradwyo a nodi Rhaglen Gwaith i'r Dyfodol y Cyngor.*

**Daeth y cyfarfod i ben am hanner dydd.**